OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 311

## Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) (Diwygio) 2020

**Diwygio Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 28, yn y pennawd, ar y diwedd mewnosoder—

"ar gyfer deunyddiau planhigion o riant-blanhigyn a oedd yn bodoli cyn cychwyn".

(3) Ar ôl rheoliad 28 mewnosoder—

"**Darpariaeth drosiannol ar gyfer dogfennau'r cyflenwr sydd ynghlwm wrth ddeunyddiau CAC**

**28ZA.**—(1) Caiff cyflenwr farchnata deunyddiau CAC y mae dogfen y cyflenwr nad yw'n cydymffurfio â pharagraff 8A o Atodlen 2 ynghlwm wrthynt ar ffurf label os yw'r ddogfen honno—

(a) yn ddogfen y cyflenwr o liw a oedd yn cael ei ddefnyddio cyn 10 Ebrill 2020; a

(b) yn datgan eu bod yn cael eu marchnata yn unol ag Erthygl 3 o Gyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1813(**2**).

(2) Mae'r rheoliad hwn yn peidio â chael effaith ar 1 Gorffennaf 2021.".

(4) Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff 8(b), hepgorer paragraffau (ix) a (x); a

(b) ar ôl paragraff 8 mewnosoder—

"**8A.** Rhaid i ddogfen y cyflenwr sydd ynghlwm wrth ddeunyddiau CAC ar ffurf label fod wedi ei lliwio'n felyn."

(**1**) O.S. 2017/691 (Cy. 163), wedi ei ddiwygio'n rhagolygol ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan O.S. 2019/368 (Cy. 90).

(**2**) OJ Rhif L 278, 30.10.2019, t. 7.